

RHYS, Syr JOHN (1840 - 1915), ysgolhaig Celtaig

Enw: John Rhys

Dyddiad geni: 1840

Dyddiad marw: 1915

Priod: Elspeth Rhŷs (née Hughes-Davies)

Plentyn: Gwladus Rhŷs

Plentyn: Myvanwy Rhŷs

Plentyn: Olwen Rhŷs

Rhiant: Hugh Rees

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: ysgolhaig Celtaig

Maes gweithgaredd: Ysgolheictod ac Ieithoedd

Awdur: Ifor Williams

Ganwyd 21 Mehefin 1840 yn Aberceiro, Cwmrheidol, Sir Aberteifi, medd y cofrestrwydd swyddogol. Mab ydoedd i Hugh Rees, gweithiwr ar y ffarm lle'r oedd y bwthyn y ganed ef, ond trinia i ei dad ychydig o dir ei hun yn ogystal. Addysgwyd ef i ddechrau yn Ysgol Frutanaidd Ponterwyd, ac yna ym Mhenllwyn, mewn ysgol gyffelyb, saith milltir i ffwrdd, lle bu'n ddisgybl-athro. Oddi yno aeth i'r Coleg Normal yng Mangor, ac ar derfyn ei gwrs, fe'i penodwyd yn athro ysgol Frutanaidd Rhos-y-bol, Môn. Ymddiddorai mewn ieitheg a hynafiaethau, a daeth i sylw'r canghellor **James Williams**, Llanfairynghornwy, a **Morris Williams** ('Nicander'), Amlwch. Dywedir mai un o'r rhain a'i cyflwynodd i **Charles Williams**, pennaeth Coleg Iesu, Rhydychen, a ffrwyth hynny oedd cael ysgoloriaeth yn y coleg hwnnw, ac ymaelodi yno yn Hydref 1865. Er prinned ei fanteision medrodd ennill gradd dda yn y clasuron (ail ddsbarth yn 'Moderations' a'r dosbarth blaenaf yn 'Lit. Hum.' yn 1869), a dewiswyd ef yn gymrawd o Goleg Merton. Heblaw dilyn y cwrs yn Rhydychen, astudiai yng ngwyliau'r haf ar y Cyfandir, ym Mharis a Heidelberg, ac yn 1870-1 yn Leipzig a Göttingen. Bu yn nosbarthiadau Curtius ac eraill, a sefydlodd ei fryd ar ymchwil ieithegol.

Yn 1871, fodd bynnag, gadawodd yr Almaen, a dychwelodd i Gymru fel arolygydd ysgolion Fflint a Dinbych. Cafodd gyfle, a gwnaeth gyfle, wrth deithio o gwmpas, i astudio'r arysgrifau hynafol ar feini coffa ar hyd a lled Cymru. Erbyn 1874 yr oedd yn barod i roi cyfres o ddarlithiau ar ieitheg Gymreig yng Ngholeg Aberystwyth, a gyhoeddwyd yn 1877 gyda'r teitl, *Lectures on Welsh Philology* (ail arg., 1879). Dyma ei lyfr cyntaf, ond cyhoeddasai cyn hyn nifer o erthyglau pwysig yn y tair cyfrol cyntaf o'r *Revue Celtique* ar y glosau yn llawysgrif Luxembourg, ar darddiadau geiriau (lle ceir datganiad o'r ddeddf ieithegol a elwir byth yn 'Rhys's Law,' sef bod 'i' gydsain mewn Celtaig yn rhoi 'dd' yn Gymraeg), ac ar ddiflaniad 'p' Arieg yn yr ieithoedd Celtaig. Dechreuasai hefyd yn *Archæologia Cambrensis* ar ei drafodaethau ar yr arysgrifau cynnar, cyfres a barhaodd ar hyd ei oes, heblaw erthyglau ar fenthyciadau i Gymraeg o'r Lladin, Groeg, a Hebraeg. Cyn gynhared â 1865 gwnaethai gyfraniad arbennig i astudiaethau Celtaig trwy ei ysgrif ar 'The Passive Verbs of the Latin and the Keltic Languages' (*Trans. of the Philological Soc.*, 1865). Felly, pan sefydlwyd Cadair Celtaig yng Ngholeg Iesu, Rhydychen, yn 1877, nid oedd betrustod nad ef a ddylid ei benodi i'w llenwi. Yr un amser gwnaed ef yn gymrawd anrhydeddus o'r coleg; ac yn 1881 yn gymrawd a thrysorydd. Daliodd swydd trysorydd yno hyd 1895, pryd yr etholwyd ef yn bennaeth y coleg, a bu'n bennaeth o hynny hyd ei farwolaeth ar 17 Rhagfyr 1915. Roedd wedi priodi **Elspeth Hughes-Davies** (bu farw 1911) o Lanberis ym 1872 a bu iddynt ddwy ferch.

Dyma restr o'i anrhydeddau: urddwyd ef yn farchog, 1907; yn aelod o'r Cyfrin Gyngor, 1911; Ll.D. Edinburgh, 1893; D.Litt. Cymru, 1902; bathodyn y Cymmrodorion, 1912; cymrawd o'r Academi Brydeinig, 1903. Bu'n aelod o bwyllgor adrannol **arglwydd Aberdâr** ar addysg Cymru, 1881; ysgrifennydd y comisiwn ar helynt y degwm yng Nghymru, 1887, a'r un ar gau'r tafarnau yng Nghymru ar y Sul, 1889; aelod o'r comisiwn ar y tir yng Nghymru, 1893; ar addysg brifysgol yn Iwerddon, 1901; ar Brifysgol Cymru a'i cholegau, 1907; ar brifysgol genedlaethol i Iwerddon, 1908; a chadeirydd y comisiwn ar gofarwyddion hynafol Cymru. Ef hefyd oedd cadeirydd Cymdeithas Dafydd ab Gwilym, Rhydychen. Yn y cyfryw gyngorau cyflawnodd wasanaeth amhrisiadwy i ddysg, i addysg, ac i ddiwylliant Cymru yn arbennig. Trefnodd yr Academi Brydeinig ddarlith goffa flynyddol, 'The Sir John Rhys Memorial Lecture,' ac yn y gyntaf obonynt cynhwysodd ei ddisgybl, **Syr John Morris-Jones**, lyfryddiaeth lawn o'i weithiau cyhoeddedig. Yn y cofnod hwn ni ellir ond crybwyll y prif rai o'r rhestr gyfoethog amlweddol honno.

Ei ddi-ddordeb pennaf oedd ieitheg Celtaig, yn arbennig yr hyn a eilw yn ieithyddiaeth Gymreig. Ar bwys ei ddarganfyddiadau lluosog yn y maes hwn medrodd gyfrannu yn hael i hanes cynnar y Celtaid ym Mhrydain. I hel defnydd crwydrodd ar led yng ngorllewin Ewrop i astudio, mewn maes ac amgueddfa, arysgrifau Celtaig, gan dalu sylw neilltuo i'r rhai mewn Ogam yng Nghymru ac Iwerddon. I'w dehongli rhaid oedd iddo o enwau'r duwiau a'r duwiesau lunio chwedloniaeth Celtaig gynnar, ac yna olrhain goroesiad honno mewn saga a chwedl Wyddeleg a Chymraeg. Diwedd y daith ymchwil hon oedd casglu llên gwerin y Celt lle bynnag y caffai. Fel y cynyddai ei stôr deuai goleuni newydd iddo yn barhaus ar enwau lleoedd, ffurfiau geiriau, a ffeithiau hanes. Arloeswr oedd, ysgythrwr ffordd mewn coedwigoedd gwyllt. Nid oedd iddo ddinas barhaus mewn damcaniaeth derfynol: rhaid cadw meddwl agored ac ailddamcanu; a thrydydd ddamcanu. Ei rinwedd oedd ei ystythder a'i barodrydd i ddysgu - dawn anhepgor yr arloeswr. Hawdd i'r oes arall a elwodd ar ei lafur gyfrif ei rinwedd yn fal a chwyno oherwydd ei ddiffyg pendantwrwydd. Profiad pob un, fodd bynnag, a geisiodd efelychu ei ymchwil yw fod ôl ei fwyall ef ym mhob cwr o'r goedwig. Achubodd y blaen ar bawb yn mhob adran o'r maes. Yna trwy help **J. Gwenogvryn Evans** dechreuodd ar y gwaith o ddarparu testunau cywir o'r llawysgrifau cynnar, i roi sail gadarn i ysgolheigion a'i dilynai.

Dyma ei brif gynhyrchion o 1877 ymlaen; *Celtic Britain*, 1882; 'Notes on the Language of Old Welsh Poetry' (*Revue Celtique*), 1885; *Celtic Heathendom* (Hibbert Lectures), 1886; *Studies in the Arthurian Legend*, 1891; *Studies in Early Irish History* (Brit. Acad.), 1893; *Outlines of the Phonology of the Manx Gaelic*, 1894; 'Notes on the Hunting of **Twrch Trwyth**' (*Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion*), 1894-5; *Celtic Folklore, Welsh and Manx*, 1901; *Celtae and Galli* (Brit. Acad.), 1903; 'The Origin of the Welsh Englyn and Kindred Metres' (*Cymm.*, xviii), 1905; *The Celtic Inscriptions of France and Italy* (Brit. Acad.), 1906; *The Celtic Inscriptions of Cisalpine Gaul* (Brit. Acad.), 1913; *Gleanings in the Italian Field of Celtic Epigraphy* (Brit. Acad.), 1914. Fel golygydd, **Pennant's Tours in Wales**, 1883. Fel cydolygydd, gyda **Dr. Gwenogvryn Evans**, *The Text of the Mabinogion* (Red Book of Hergest), 1887; *The Text of the Bruts* (Red Book of Hergest), 1890; *The Text of the Book of Llan Dav* (Gwysaney MS.), 1893; gyda **Syr J. Morris-Jones**, *The Elucidarium*, 1894), gyda **D. Brynmor-Jones**, *The Welsh People*, 1900.

Awdur

Syr Ifor Williams, (1881 - 1965)

Ffynonellau

J. Morris-Jones, *Sir John Rhys* (Llundain 1926)

Proceedings of the British Academy

John Fraser, 'Rhys [formerly Rees], Sir John (1840–1915)' yn yr *Oxford Dictionary of National Biography*, 1927

Darllen Pellach

Cambrian Medieval Celtic Studies 77 (Summer 2019)

Erthygl Wicipedia: John Rhys

Delweddau

Christopher Williams, *Sir John Rhys (1840-1915)*

Dolenni Ychwanegol

Archifau LIGC: Sir John Rhys Papers

VIAF: 41967414

Wikidata: Q3050565

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Yfrannu

Arddull APA

x

Williams, I., (1953). RHYS, Syr JOHN (1840 - 1915), ysgolhaig Celtig. Y *Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 9 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-RHYS-JOH-1840>

Yfrannu

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGELL
THE NATION



Yn ddiwydian gan
Llywodraeth Cymru
Supported by
Welsh Government